PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 155 | Rhif 44 | Tachwedd 3, 2022 | 50c.

# Gweinidog newydd ym Methania



Achlysur llawen iawn ym Methania, Tymbl Uchaf, oedd sefydlu'r Parchg Heini Jones yn weinidog rhan-amser, mewn gwasanaeth bendithiol ar ddydd Sul, 16 Hydref.

Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y diaconiaid a'r sefydlu gan y Parchg Ken Williams, cadeirydd yr eglwys. Mrs Meryl James yr ysgrifenyddes a gyflwynodd hanes yr alwad cyn clywed tystiolaeth y gweinidog. Cydnabuwyd cefnogaeth yr aelodau a ffrindiau drwy iddynt sefyll ac wedi gwrando ar Weddi'r Sefydlu. Estynnwyd deheulaw cymdeithas i'r Parchg Heini Jones a chadarnhau iddo dderbyn yr alwad i fod yn weinidog yn ein plith i:

- bregethu a dysgu Gair Duw
- weinyddu ordinhadau Bedydd a Swper yr Arglwydd
- arwain gweddïau ac addoliad yr eglwys
- fugeilio'r praidd, a'u cadarnhau yn y ffydd
- adeiladu'r eglwys mewn cariad a chadw undod yr Ysbryd yng nghwlwm tangnefedd.

Estynnwyd croeso'r Cwrdd Chwarter gan y cadeirydd Mr Gethin Thomas a oedd yn adnabod y teulu yn dda pan oeddynt yn byw yn yr ardal. Roedd Gethin wrth ei fodd fod yr eglwys wedi sicrhau parhad y weinidogaeth ym Methania ac yn edrych ymlaen at ei wahodd i ymuno yn y Cwrdd Chwarter nesaf a llawer o flynyddoedd o gydweithio yn y cwm a'r gymuned.

Y Parchg Beti-Wyn James Llywydd Undeb yr Annibynwyr a gyfarchodd y gweinidog a'r eglwys trwy gyfrwng fideo pwrpasol a ddangoswyd ar y sgriniau. Cyfeiriodd at y weinidogaeth gyfoethog a gafwyd ym Methania a bod parhad a'r dyfodol nawr yn llaw'r gweinidog a'r aelodau o dan arweiniad Duw drwy'r Ysbryd Glân. Dymunodd yn dda i Heini ac i'r eglwys.

### Hanes yr alwad

Penderfynwyd y byddem yn ceisio parhad y weinidogaeth yma ym Methania. Trafodwyd ac ystyriwyd y posibiliadau gan y diaconiaid a rhoddwyd caniatâd i Ken i gael gair â'r Parchg Heini Jones – a oedd ers tro yn byw gyda'i deulu ar ben uchaf y Tymbl. Cafwyd ymateb ffafriol gan y gweinidog ifanc a threfnwyd iddo ddod atom i bregethu. Daeth atom eto i bregethu a chafwyd cwrdd eglwys yn dilyn hynny, pan basiwyd i alw'r Parchg Heini Jones i ddod atom fel gweinidog rhan amser. Er calondid i ni fe gadarnhawyd hyn gan iddo dderbyn.

Ers hynny bu gyda ni ar sawl Sul, yn pregethu ddwywaith y mis gan weinyddu'r Cymun ar y Sul cyntaf yn ôl ein harfer. Mae wedi dechrau bugeilio'r aelodau sydd yn mynd drwy gyfnodau anodd ac fe ddaw yn gyfarwydd â ni i gyd mewn amser. Croesawn y gweinidog a'i deulu yn gynnes iawn gan ddymuno bendith Duw ar ei weinidogaeth yma ym Methania

**Meryl James**



# Dathlu o'r diwedd

## Gofalaeth Bethesda Llangennech a Hope-Siloh Pontarddulais

Roedd y dyddiad wedi'i nodi, dydd Sul, 15 Mawrth, 2020. Y daflen wedi'i pharatoi a'r wledd ar ôl y gwasanaeth wedi'i threfnu. Ond nid fel yna y bu. Fe ddaeth yr hen Covid-19 gan roi stop ar bopeth.

### Dathlu 25 (+2)

Ond ddwy flynedd yn ddiweddarach ar ddydd Sul, 25 Medi, 2022, fe gawsom ddathlu. Dathlu 25 mlynedd y Parchedig Llewelyn Picton Jones yn y weinidogaeth – dathlu 27 mlynedd a hanner mewn gwirionedd! Roedd hi'n hyfryd gweld cynulleidfa dda o bob cwr o'r wlad wedi dod i gapel Hope-Siloh, Pontarddulais i ddathlu'r achlysur. Cafwyd gwasanaeth bendithiol a chofiadwy o dan arweiniad Eric Jones, gyda Geraint Williams, organydd Bethesda, Llangennech wrth yr offeryn. Dechreuwyd gyda gair o

*parhad ar dudalen 2*




# Dathlu o'r diwedd – *parhad*

groeso gan Eric a chyflwynwyd y rhannau arweiniol gan Iwan, Luned, Heledd a Lowri, aelodau o deulu Llew. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd eitem gan blant ac ieuenctid eglwys Hope-Siloh a chyflwynwyd cerdyn o'u gwaith nhw i'r gweinidog yn ei longyfarch.

### Cyfarchion

Cafwyd cyfle hefyd i dderbyn cyfarchion ar ran eglwysi Cymraeg y cylch, eglwys Tabernacl, Hendygwyn, eglwys Bethel, Llanddewi Efelffre, eglwys Triniti, Llanboidy, eglwys Bethesda, Llangennech ac eglwys Hope-Siloh, Pontarddulais. Wrth ddathlu unrhyw beth, mae'n draddodiad cyflwyno anrhegion i gofio'r achlysur. Mae gofalaeth Bethesda a Hope-Siloh yn freintiedig fod ganddynt aelodau sydd yn feirdd o fri ac felly ar ran



Bethesda cyflwynwyd cerdd gan y Parchedig Gerald Jones, ac ar ran Hope-Siloh cyflwynwyd cyfres o englynion gan Harri Williams a cherdd gan Iris Thomas. Cyflwynwyd hefyd rhodd arbennig oddi wrth aelodau yr ofalaeth, sef adnod o ddewis y gweinidog wedi'i argraffu ar arian: 'Nid oes arnaf gywilydd o'r Efengyl, oherwydd gallu Duw yw hi ar waith er iachawdwriaeth i bob un sy'n credu.' Darn arbennig gan Mari Thomas. Fel y gwyddoch, tu ôl i bob dyn da, mae yna wraig dda hefyd a chyflwynwyd basged o flodau hyfryd i Marie-Lynne. Mae yng nghapel Hope-Siloh griw o aelodau talentog sydd bob amser yn barod i gyflwyno eitem a chafwyd perfformiad hyfryd ganddynt o 'Ffydd yn y dyfodol', y gerddoriaeth gan Eric Jones a'r geiriau gan Iris Thomas. Gwasanaeth cofiadwy iawn y bu'n werth aros dwy flynedd a hanner amdano.

Ar flaen taflen y dathlu nodwyd adnod o ddewis Llew: 'Yr wyf yn diolch i Grist Iesu ein Harglwydd, yr hwn a'm nerthodd, am iddo fy nghyfrif yn un y gallai ymddiried ynof a'm penodi i'w wasanaeth.' (1 Timotheus 1:12).

**Jennifer Clarke**

# Ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth?

Bu mis Hydref yn fis codi ymwybyddiaeth dros hanes pobl ddu ac mae'n dda gweld y cynnydd mewn ymwybyddiaeth o hyn yn ein plith fel Cymry. Gwych o beth yw ein bod yn gallu dathlu'r amrywiol gefndiroedd ethnig sy'n rhan o'n cynhysgaeth fel cenedl. Y mae'n werth nodi y bu un o weinidogion yr Annibynwyr yn flaenllaw yn y 19eg ganrif yn yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth yn Unol Daleithiau'r America. Yn wir yn ystod mis Hydref eleni ychwanegwyd ei enw at oriel yr anfarwolion yno. (The National Abolitionist Hall of Fame and Museum.)

### Robert Everett



Ganed Robert Everett yn y Gronant, Sir Fflint ym 1791. Dechreuodd bregethu ym 1809 ac fe aeth i ysgol ramadeg Dinbych ym 1811 ac yna i athrofa Wrecsam a oedd ar y pryd o dan ofal yr enwog Dr George Lewis. Ordeiniwyd ef yn weinidog i'r Arglwydd Iesu ar gynulleidfa Lôn Swan, Dinbych, ym 1815.

Ond ym 1823 derbyniodd alwad gan eglwys Gymraeg Utica i fod yn weinidog arni ac fe ymfudo i'r UDA. Ystyrid ef yn bregethwr grymus ac effeithiol ac fe aeth Ap Fychan mor bell â'i gymharu â'r Hen Seraph, William Williams o'r Wern. Symudodd o Utica i Winfield ym 1833, ac ym 1838 i ofalu am eglwysi Steuben a Phenmynydd ac yno y bu farw yno 25 Chwefror 1875.

### Ymgyrchydd diflino

Roedd nifer o rinweddau yn perthyn i R. Everett ond un o'r pethau pwysicaf a wnaeth oedd galw yn gyson am ddiddymu caethwasiaeth. Ef oedd sylfaenydd a golygydd y misolyn, *Y Cenhadwr Americanaidd* ac o'r rhifyn cyntaf defnyddiodd y cylchgrawn fel cyfrwng i gyhoeddi deunydd gwrth-gaethwasiaeth gan annog Cymry America i gefnogi'r achos. Roedd hefyd yn un o sylfaenwyr y *New York State Anti-Slavery Society*, ac am flynyddoedd bu'n defnyddio'r wasg Gymraeg i ddadlau dros achos y caethweision. Am dros gyfnod o 40 mlynedd, felly, bu'n ymgyrchu er mwyn cael gwared ar gaethwasiaeth. Ond bu'n rhaid i America ddioddef rhyfel cartref gwaedlyd cyn gweld pob caethwas yn ennill ei ryddid ym 1865.

Meddai'r Athro Jerry Hunter o Brifysgol Bangor, sydd wedi cyhoeddi 'I Ddeffro Ysbryd y Wlad' sef hanes yr ymgyrchu gwrth-gaethwasiaeth,

'Diddymu caethwasiaeth oedd ei brif nod, er ei fod hefyd yn cefnogi hawliau merched, heddychiaeth a dirwest. Bu'n rhaid iddo weithio trwy gyfyng gyngor moesol mewnol fel heddychwr, a phenderfynodd yn y diwedd fod diddymu caethwasiaeth yn bwysicach na heddwch, ac felly y daeth i gefnogi Rhyfel Cartref 1861–65, sef gwrthdaro a welai fel crwsâd yn erbyn caethwasiaeth.'

Mae'r amgueddfa yn Peterboro, Efrog Newydd, yn anrhydeddu'r bobl a ymgyrchodd i ddiddymu caethwasiaeth gan ychwanegu enwau at oriel yr anfarwolion bob dwy flynedd. Yma yr ychwanegwyd enw Robert Everett.



[Gellir darllen rhagor o'r hanes yn, *Cofiant Robert Everett* (Utica 1879) gan D. Davies ('Dewi Emlyn')]

Yr Adran
Gydenwadol

TACHWEDD 3 2022 RHIF 88

# *Chwarae a Chredu*: lansio adnoddau *Godly Play* yn Gymraeg


Cass yn arwain sesiwn Chwarae a Chredu yn y gadeirlan


**Nos Fercher, 26 Hydref, yn y gadeirlan ym Mangor lansiwyd cynllun dysgu ac addoli newydd ar gyfer plant a theuluoedd. Addasiad gan Dr Cass Meurig o rai o adnoddau'r cynllun poblogaidd *Godly Play* yw *Chwarae a Chredu*. Daeth criw ynghyd o eglwysi gwahanol ar draws gogledd Cymru, a braf hefyd oedd croesawu Andrew Sheldon o Toronto yng Nghanada, cyfarwyddwr y Godly Play Foundation sy'n goruchwylio'r gwaith ledled y byd.**

**Mae Dr Cass Meurig wedi bod wrthi ers rhai blynyddoedd yn cyfieithu adnoddau *Godly Play* i'r Gymraeg, a bellach cyhoeddwyd detholiad o bedwar o lyfrau'r gyfres gan Gyhoeddiadau'r Gair. Bu Aled Davies yn holi'r cyfieithydd Cass Meurig, sydd hefyd yn un o hyfforddwyr y cynllun yng Nghymru, am y gwaith.**

### Beth felly yw *Godly Play*?

Datblygwyd *Godly Play* gan Jerome Berryman yn Efrog Newydd dros 30 mlynedd yn ôl, ac mae bellach wedi ei gyfieithu i tua 15 o ieithoedd ac yn cael ei ddefnyddio mewn tua 60 o wledydd ledled y byd.

Dull o feithrin plant yn y ffydd Gristnogol yw *Chwarae a Chredu*, neu *Godly Play*. Mae wedi'i anelu at blant 3–11 oed, ac mae'n defnyddio'r cyfrwng mwyaf naturiol iddyn nhw i dyfu yn eu ffydd, sef chwarae. Drwy storïau a symbolau, mae *Chwarae a Chredu* yn cynnig lle i blant brofi presenoldeb Duw, dysgu storïau'r Beibl a dod i ddeall a chredu'r ffydd Gristnogol. Mae *Chwarae a Chredu* yn seiliedig ar ymchwil maith ar sut mae plant yn dod i'r ffydd – ac mae'n gweithio! Daeth fy mhlant fy hun i'r ffydd drwy *Chwarae a Chredu*.




### Beth sy'n digwydd mewn sesiwn *Godly Play/Chwarae a Chredu*??

Mae sesiwn *Chwarae a Chredu* yn dechrau â'r plant yn eistedd mewn cylch gyda'r storïwr; mae hyn yn eu helpu nhw i dawelu a bod yn barod am y stori. Yna mae'r storïwr yn dweud stori o'r Beibl, gan ddefnyddio gwrthrychau a symbolau megis tywod, pobl bach pren a lluniau. Mae'r plant wrth eu boddau. Mae'r stori'n dod yn fyw yn y dull sy'n naturiol iddyn nhw.

Mae'r cwricwlwm *Chwarae a Chredu* yn cynnwys storïau sy'n adrodd 'stori fawr' yr Hen Destament a'r Testament Newydd, damhegion a gwersi sy'n eu helpu i ddeall arferion y ffydd (bedydd a'r cymun, er enghraifft). Mae yna storïau hefyd am gymeriadau mawr y Beibl – Dafydd, Daniel a'u tebyg – a rhai sy'n addas ar gyfer gwahanol dymhorau'r flwyddyn, fel y Nadolig, y Pasg, a'r Pentecost. Y nod yw rhoi model mewnol o'r ffydd Gristnogol i'r plant ar gyfer gweddill eu hoes.

Ar ôl cael cyfle i wrando a gwylio'r stori, mae yna amser 'myfyrio'. Mae gofyn cwestiynau agored yn helpu'r plant i gysylltu'n bersonol â'r naratif, e.e. Beth oeddech chi'n hoffi fwyaf yn y stori? Beth yw'r rhan fwyaf pwysig yn y stori? Lle ydych chi yn y stori?

Yn dilyn hyn mae amser rhydd ar gyfer chwarae, neu gelf a chrefft. Mae'r plant yn cael dewis stori o'r silffoedd a chwarae gyda hi, neu ymateb i'r stori mewn ffordd greadigol drwy gelf a chrefft. Nid ydym yn darparu deunydd parod; mae hon yn ffordd i'r plant brosesu'r stori yn eu ffordd eu hunain. Yna daw pawb yn ôl at y cylch ar gyfer gweddïau a'r 'wledd', sef bisgeden a diod fel arfer. Ac yna mae'n amser dweud 'ta-ta'!

### Ble gellir defnyddio *Godly Play*?

Mi wnes i syrthio mewn cariad â'r dull *Godly Play* tua 12 mlynedd yn ôl ac ers hynny rwyf wedi ei ddefnyddio mewn llawer cyd-destun. Ar hyn o bryd rwyf yn ei ddefnyddio mewn clwb ar ôl ysgol yn Eglwys Crist, y Bala, mewn astudiaeth Feiblaidd i bob oed, ac mewn cartref gofal. Dw i wedi mynd ag ef i ysgolion i helpu gyda gwersi Addysg Grefyddol, a'i ddefnyddio hefyd ar gyfer sawl encil i oedolion. Er ei fod yn anelu at blant, mae hefyd yn apelio at bobl o bob oed. Mae *Godly Play* yn addas ar gyfer ysgol Sul, clwb ar ôl ysgol, ac astudiaethau Beiblaidd gyda phlant. Gellir defnyddio'r storïau hefyd yng nghyd-destun gwasanaethau pob oed, Llan Llanast a gwersi Addysg Grefyddol.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## *Chwarae a Chredu: lansio adnoddau Godly Play yn Gymraeg*

*(parhad o dudalen 1)*

### Ble mae modd cael gafael ar adnoddau *Chwarae a Chredu a Godly Play*?

Mae'r gyfrol Gymraeg ar gael o wefan Cyngor yr Ysgolion Sul. Mae'n gydymaith i'r llyfrau Saesneg *The Complete Guide to Godly Play* gan Jerome Berryman, ac yn cynnwys sgriptiau o gyfrolau 2, 3, 4 a 6. Maent ar gael ar ffurf copi caled neu fel fersiwn digidol.

### Sut mae modd dysgu mwy am *Godly Play*?

Mae mwy o wybodaeth am *Godly Play* ar wefan Godly Play UK: https://www.godlyplay.uk

Os hoffech roi cynnig ar *Godly Play* yn Gymraeg, y peth gorau i'w wneud yw profi sesiwn eich hunain a gwahodd eraill i gael eu hysbrydoli. Cynhaliwyd prynhawn 'encil' yn Eglwys Crist, y Bala yn ddiweddar i gynnig blas ar *Chwarae a Chredu*, a bydd mwy o ddyddiau blasu ar y gweill yn fuan.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â CassMeurigThomas@cinw.org.uk.

Os oes diddordeb gennych chi i gael eich hyfforddi yn y dull hwn, mae Godly Play UK yn cynnig cwrs tridiau yn ystod 13–15 Gorffennaf 2023 yn Llandudno. Gellir archebu lle yma: https://www.godlyplay.uk/events/three-day-core-training-llandudno/.

Dewch i chwarae!



Cass gyda Robin o Fethel



Criw yn cyfrannu at y gwaith celf



Andrew Sheldon, Aled Davies a Cass Meurig

# Cofio dros Heddwch a Chymod

Mae Sul y Cofio yn nesáu ar adeg pan fo rhyfel yn Ewrop yn y penawdau, ac rydym i gyd yn ymwybodol o'r dinistr a'r anhrefn a achosir gan ryfel. Rydym yn llai ymwybodol o wrthdaro parhaus mewn mannau eraill – er enghraifft yn Ethiopia, Yemen ac Afghanistan – ac mae'r rhyfeloedd hyn hefyd yn cael effaith ddinistriol ar fywydau pobl yn eu miloedd.

Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig gofyn beth yn union rydym yn ei gofio ar Sul y Cofio a pham. Mae ffocws y pabi coch yn tueddu i fod ar filwyr Prydeinig sydd wedi colli eu bywydau ar faes y gad. Mae hyn yn bwysig ynddo'i hun ac mae'n gymwys ein bod yn galaru am golli'r rhai a fu farw felly. Ond mae gwisgo pabi gwyn yn dangos parch tuag at holl ddioddefwyr rhyfel, yn cynnwys unigolion, teuluoedd a phlant ar bob ochr. Mae hefyd yn cynrychioli ymrwymiad dwfn i weithio dros heddwch – tuag at fyd lle mae gwrthdaro'n cael ei ddatrys mewn ffyrdd di-drais.

Fel Cristnogion gelwir arnom i weithio dros heddwch a chymod yn ein bywydau ein hunain. Gallwch ddangos eich ymrwymiad i heddwch eleni drwy wisgo naill ai pabi gwyn ar ei ben ei hun neu babi gwyn ochr yn ochr â'r un coch traddodiadol. Beth am ysgrifennu at eich Cyngor Tref a gofyn a fedrwch chi neu'ch eglwys osod torch wen neu un goch a gwyn wrth eich cofeb ryfel leol?

Ar adeg pan fo gan ryfel le amlwg yn y newyddion, mae'n bwysig pwysleisio mai dim ond trwy drafod a deialog y daw heddwch parhaol. Cofiwn hefyd am y dynion a'r merched hynny sydd yn gwrthod ymladd oherwydd eu credoau a'u hargyhoeddiadau, ac sy'n dioddef o ganlyniad.




Mae pabis gwynion ar gael trwy Gymdeithas y Cymod yng Nghymru (£1 y pabi, £10 am fwndel o 10, £20 am 25 pabi), yn ogystal â thaflenni A5 yn egluro arwyddocâd y pabi gwyn. Gallwch eu harchebu drwy e-bostio jane.heddwch3@gmail.com neu drwy ffonio 077200 87132.

*Jane Harries*
*Ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod*

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 6 Abraham – teulu a ffrindiau

### Darllen: Genesis 11:27–32

Rhai blynyddoedd yn ôl cefais awydd mawr i geisio olrhain achau fy nheulu. Yn hytrach na gorfod teithio i lyfrgelloedd ac archifdai amrywiol, mae'r gwaith cychwynnol bellach yn weddol rwydd ar y cyfrifiadur. Cofiwch, petawn wedi cychwyn pan oedd Mam a Dad yn fyw, a phetai gennyf gof gwell, byddwn wedi ennill mwy o dir yn gynnar. Mae'n debyg fod rhai ohonoch chithau hefyd wedi profi'r awydd i olrhain hanes y teulu, ac yn fy achos i roedd colli fy rhieni yn galw am ryw fath o ymchwil i weld yn gliriach o ble y deuthum.

Mae hel achau yn gyffredin iawn yn y Beibl. Rydych i gyd yn gyfarwydd â'r rhestrau sydd yn Mathew 1 a Luc 3, ac efallai yn gyfarwydd â rhai o restrau Numeri, Cronicl ayyb. Wrth inni symud yn awr at hanes Abraham, yr hyn sy'n cael ei osod fel sail i'w hanes yw hanes ei deulu. Yn Genesis 10, mae cynnwys yr achau yn dangos undod dynoliaeth fel disgynyddion meibion Noa ar ôl y dilyw. Sonnir am lawer o bobl, llwythau, ieithoedd, a chenhedloedd, 70 i gyd, ac felly'n gynrychioliadol o'r cyfan. Rwy'n credu bod y darn hwn, fel y mae eraill yn ei wneud, yn dysgu ein bod ni i gyd yn deulu. Yn Genesis 1:26–7, dywedir bod pawb wedi eu creu gan Dduw'r Creawdwr. Yn yr achau mae un llinell, un genedl y mae Duw yn gweithio'n arbennig drwyddi, ond nid ar draul y lleill i gyd. Yn hytrach, â'r ddynoliaeth gyfan wedi'i chynnwys yn y darn hwn, rydym yn dechrau gweld mai diben Duw wrth ddewis un genedl o blith y cenhedloedd gwasgaredig oedd i fendithio'r cyfan.

Mae Genesis 10:1 yn sôn am dri mab Noa: Sem, Ham, a Jaffeth. Yna, mae'r rhestr yn olrhain eu teuluoedd. Y mab olaf y cyfeirir ato yw Sem, sef 'tad' yr Hebrewyr (10:21), ac i'w linach ef y mae Abram yn perthyn. Fel y gwelwyd yr wythnos diwethaf, aeth Duw i berthynas gyfamodol ag Abraham er mwyn i'r holl genhedloedd gael eu bendithio trwyddo. O linach Abraham disgynnodd Iesu (Mathew 1:1 a Luc 3:34–8), a dyna sut y byddai'r addewid i fendithio'r cenhedloedd yn cael ei gyflawni (Mathew 28:16–20). Trwy Iesu, mae maddeuant a bywyd tragwyddol i bawb sy'n credu (Rhufeiniaid 10:13). Bywyd yn ei gyflawnder fydd hwn, sef yr hyn y daeth i'w roi (Ioan 10:10). Trwy ei ddilynwyr, roedd y neges hon i ledaenu i ddod â bendith i'r holl genhedloedd (Actau 13: 46–8).

O ran dealltwriaeth o achau, ac yn benodol o deulu yn yr Hen Destament, mae angen cadw un neu ddau o bethau mewn cof. Yn Genesis deellir teulu o fewn patrwm partriarchaidd, ac mae achau yn cael eu holrhain drwy un rhiant – y tad. O ran priodas, yr oedd hyn yn rhywbeth oedd i ddigwydd o fewn y teulu gan fod priodi pobl o'r tu allan yn cael ei wahardd. O ganlyniad roedd 'y teulu' yn medru bod yn eang iawn, gyda gwraig a phlant, gwragedd eraill a phlant, meibion a'u gwragedd, ac wyrion a'u gwragedd.

Erbyn cyfnod y ffoi o'r Aifft, mae hyn yn ymestyn ymhellach, gyda'r teuluoedd bellach yn cynnwys gweision a phobl wedi eu gwahodd. Byddai sawl teulu gyda'i gilydd yn cael eu hadnabod fel 'llwyth', rhywbeth ddatblygodd ymhellach yng Nghanaan, ac yn awr yn cael eu hadnabod o ran eu perthynas ag un o'r 12 llwyth. Mae datblygiad pellach ym mywyd teulu erbyn cyfnod y brenhinoedd, gyda'r wladwriaeth yn trefnu pethau fel gofal cymdeithasol, yr economi a rhai gweithgareddau crefyddol, ac wrth gwrs, fel y nododd y proffwydi, roedd tuedd gan y brenin hyd yn oed i gymryd lle Duw fel 'Tad' y bobl.

Mae'r darlun o deulu yn y Testament Newydd hefyd yn amrywiol. Ceir ambell adran sy'n cyfeirio at eiriau Iesu yn sôn am 'frawd yn erbyn brawd, tad yn erbyn plant' (Marc 13:12–13); galwad i gasáu tad, mam (Luc 14:26); a galwad i adael y meirw i gladdu'r meirw yn achos un oedd am ddilyn y gyfraith Iddewig i gladdu ei dad (Mathew 8:21–2). Ond mae darlun arall hefyd, gyda'r galwad i anrhydeddu rhieni yn ymddangos bump o weithiau yn yr Efengylau ac, yn achos dwy o'r enghreifftiau, ymosodiad ar y rhai oedd am osod rhoddion crefyddol o flaen cyfrifoldebau teuluol (Mathew 15:4–7; Marc 7:9–12). Yn wir, drwy'r Testament Newydd, mae gwerth y cartref a'r teulu yn anghyffredin o bwysig. Sylwch ar yr enghreifftiau o bobl yn cael eu hiacháu: ni wahoddwyd y rhain i ddod yn ddilynwyr yn gymaint â'u hanfon adref.

Mae'n amlwg fod lle'r teulu o fewn teulu Duw yn bwysig, ac mae'n ddiddorol sylwi mai teuluoedd oedd hanfod y canolfannau addoli cyntaf. Ond mae'n amlwg fod geiriau Iesu a dysgeidiaeth yr apostolion am bwysleisio nad oedd teulu estynedig yr Eglwys ddim mwyach yn seiliedig ar berthynas deuluol, ond yn hytrach ar feddu ffydd. Os oedd rhai'n deall galwad radical Iesu i fod yn ddilynwyr fel rhywbeth oedd yn gwrthdaro â lle'r teulu mewn Iddewiaeth, nid felly yn eich hachos ni. Er ei bod yn wir bellach nad i bwy rydych yn perthyn o ran eich achau sy'n eich gwneud yn aelod o deulu Duw, eto, ni ddylid gosod anrhydeddu Tad teulu'r Eglwys o flaen anrhydeddu tad a mam naturiol.

1. Er bod ein deall creiddiol o deulu yn glir yn y Beibl (Mathew 19:5), mae'r darlun o'r teulu ynddo'n un sy'n datblygu wrth i gyd-destun pobl Dduw newid. Trafodwch sut y gall hyn fod o gymorth wrth i bobl heddiw ddeall y syniad o deulu mewn ffyrdd gwahanol.
2. Mae'r Beibl yn ein disgrifio fel 'plant Abraham'. Wrth feddwl am hanes ein teulu Cristnogol, beth sy'n ein diogelu ni?
3. Yn y Testament Newydd mae'r Eglwys yn cael ei disgrifio fel teulu, ac yn aml, teuluoedd oedd yr eglwysi cyntaf. Sut fyddwch chi'n gofalu am y teulu yn eich eglwys chi, ac yn arbennig yn cefnogi teuluoedd?
4. Yng Nghyffes Ffydd y Methodistiaid (Pennod 36), ceir anogaeth i sicrhau ffyddlondeb i gymuned yr eglwys, ond yr un pryd pwysleisir na ddylai perthyn i'r teulu hwn ddim dirymu yr un berthynas naturiol; hynny yw, nid yw'r eglwys i drefnu ei bywyd ar draul bywydau teuluoedd. Sut mae diogelu'r balans wrth feddwl am y galwadau sydd ar arweinwyr/aelodau eglwysig?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 6 Tachwedd am 7.30yh**

Huw Edwards fydd yn arwain rhaglen arbennig i ddathlu canrif a hanner ers sefydlu Capel y Tabernacl, Treforys. Daw'r canu mawl o gymanfa arbennig yn y capel gyda Huw Tregelles Williams wrth yr organ a'r Parch. Robert Nicholls yn arwain y canu

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 6 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**

Elin Manahan Thomas yn trafod cyfraniad rhai o gerddorion clasurol Cymru i'n hemynyddiaeth

**Sul, 6 Tachwedd, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Gwenda Richards, Caernarfon

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Rhagor o'r Cyngor

Am y tro cyntaf ers Hydref 2019 cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb o'r Cyngor â hynny ym mhrifysgol Aberystwyth dan gadeiryddiaeth Mr Dafydd Roberts, gyda nifer dda iawn o gynrychiolwyr yn bresennol. Yr oedd y ffaith inni ymgynnull yn fendith ynddi'i hunan â chyfarfyddiad, sgwrs a phaned yn profi'n llesol a daionus.

Roedd amserlen y dydd, a chyngor undydd ydoedd, yn bur lawn ac ni wastraffwyd dim amser cyn bwrw i waith. Synhwyrwyd o'r dechrau'n deg ac yn arbennig felly wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen bod ymrwymiad newydd yn ein plith ac awydd cryf i fynd i'r afael â materion sy'n greiddiol i fywyd a thystiolaeth ein heglwysi.

### Yr Adran Genhadaeth a'r Eglwys Fyd Eang.

Cadeiriwyd yr adran gan y Parchg. Jill-Hailey Harries a chafwyd sesiwn hynod o fuddiol o dan ei harweiniad.

### CWM -Byd eang

Dylan Rhys a Jill-Hailey fu ar ein rhan yng nghyfarfod blynyddol aelodau CWM. Talwyd sylw arbennig i brosiect Onesimus CWM a lansiwyd 23 Awst, sef Diwrnod y Cenhedloedd Unedig, i gofio am y fasnach gaethweision a'i diddymiad. Amcan y prosiect yw galluogi CWM i fynd i'r afael yn feirniadol â chaethwasiaeth hanesyddol a modern, gan ddarparu safbwyntiau a mewnwelediadau newydd ar ddirnad ein cenhadaeth o gyfiawnder heddiw.

### CWM Ewrop

Bu Annalyn Davies yng nghynhadledd Rhanbarth Ewrop a chafwyd ganddi adroddiad manwl o'r gweithgaredd ar y thema, 'Rising Up – Letting Go'. Braf oedd ei chlywed yn tystio i'r budd mawr a gafodd yn y gynhadledd a'r modd y cafodd ei hysbrydoli yno i ymroi i'w gwaith yn y Tŷ Croeso, Sancler.

### Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd

Profiad amheuthun i'r Ysgrifennydd Cyffredinol fu cael uno a rhyw bedair mil o Gristnogion o draws y byd ddaeth ynghyd yn Karlsruhe yn ne-orllewin yr Almaen ddiwedd yr haf. Yno sylweddolwyd maint y fendith ddaw o berthyn i deulu mor fawr ac amrywiol a dod i werthfawrogi cyfoeth yr amrywiaeth sy'n nodweddu disgyblion Iesu.

### Prosiect Denman

Penderfynwyd gwahodd ysgolion Sul i wneud podlediad/hysbyseb/fideo/unrhyw beth cyfrwng digidol ar y thema **Ein hysgol Sul: 'Dweud am Iesu'**.

### Hanes

Nodwyd gyda diolch bod y ddwy ddarlith werthfawr draddodwyd ym mlwyddyn dathlu'r 150 wedi eu cyhoeddi yn y *Cofiadur* (sydd ar gael drwy gysylltu â Thŷ John Penri).

### Cenhadaeth

Gyda rhaglen *Y Ffordd* bellach wedi ei chwblhau ac ar gael ar y wefan gwelwyd bod yma gyfle newydd i'w hyrwyddo a'u hybu fel adnodd cenhadol gwerthfawr. Cafwyd cyfle i edrych ar ryw gymaint o'r penodau a sylweddoli mor gyfoethog yw'r cynnwys. Gwelwyd y 5 nod cenhadol fel man cychwyn rhagorol i ystyried ein rôl fel eglwysi yn y byd.

### Ymwelydd o CWM

Penderfynwyd gwahodd un o staff CWM i ymweld â'r Cyngor a'r adran yn y dyfodol agos.



## Gwyliau Haf Eglwys Llanfair Pen-rhys

Buom ni'n brysur iawn yn ystod gwyliau'r ysgol gyda chaffi'r dydd (3 diwrnod) a chaffi'r nos (3 noson) ar agor am bythefnos gyda llawer o bobl o bob oedran yn dod ynghyd i fwynhau sgwrsio, chwarae gemau a chael bwyd. Aeth nifer ohonom yn blant ac oedolion i gerdded sawl gwaith gan fwynhau'r tywydd braf a golygfeydd hyfryd o Gwm Rhondda, gan gynnwys rhan o bererindod Llandaf i Ben-rhys.

Un bore Sul, yn hytrach na chynnal ysgol Sul a'n hoedfa prynhawn Sul, bu inni ymuno â chynulleidfa Eglwys Unedig Dewi Sant ym Mhontypridd cyn mynd am bicnic i barc Ynys Angharad.

### Tu hwnt

Cawsom ddathliad llwyddiannus o'n prosiect celfyddydol 'Tu Hwnt i'r Gofyn' gan Gwmni Dawns Cymru â hynny am dri diwrnod gyda llu o wahanol weithgareddau yn digwydd e.e. celf a chrefft, drama, dawns a chwaraeon a bwyd am ddim. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'r holl wirfoddolwyr fu mor gefnogol yn paratoi, yn trefnu ac yn helpu yn ystod yr ŵyl.

Bu nifer o'n gwirfoddolwyr hefyd wrthi'n glanhau a thacluso gerddi pobl fregus ym Mhen-rhys yn ystod yr haf, ac mae hyn wedi bod hybu eu lles a'u hiechyd meddwl.

Cawsom dri thrip – dau i'r plant a'r bobl ifainc sy'n dod yn aml i'r Clwb Gwaith Cartref i Barc Gwledig Barry Sidings, Trehafod ac i barc gwledig Aberdâr ac yna trip teuluol i Aberafan.

Er eu bod nhw wedi mwynhau y gwahanol weithgareddau mae'r plant wedi bod yn gofyn yn aml: 'Pryd mae Clwb Gwaith Cartref?' Felly roedden nhw'n hapus iawn i ail gychwyn yn ystod wythnos gyntaf tymor yr hydref.

**Sharon Rees**





# Barn Annibynnol

## TÔN GRON O BWNC

Mae yna ambell bwnc dwys sy'n hawlio'r penawdau ar y cyfryngau torfol, yn derbyn llawer o sylw ar y pryd cyn diflannu ac ailymddangos eto mewn amser heb fawr o newid, os o gwbl, wedi digwydd yn y cyfamser. Rhyw fath o dôn gron o bwnc – fel tlodi plant.

### UNICEF

Mae cipolwg yn unig ar wefan UNICEF yn ddigon i'n hatgoffa o ddifrifoldeb y sefyllfa. Ar draws y byd mae tua 356 miliwn o blant yn byw mewn tlodi eithafol. Mae'r canlyniadau'n ddifrifol. Yn fyd eang mae plant tlawd ddwywaith yn fwy tebygol o farw na'u cyfoedion mwy cyfoethog. Ble bynnag y maent, mae plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn dioddef o safonau byw gwael, yn datblygu llai o sgiliau ac yn ennill cyflogau is fel oedolion. Er 2014 mae UNICEF wedi chwarae rhan allweddol yn tynnu sylw ar raddfa byd eang at dlodi plant ac yn ceisio cynhyrchu canllawiau a nodau er mwyn ei ddileu. Er gwaethaf hyn oll, mae'n anodd credu mai dim ond nifer gyfyngedig o lywodraethau, yn ôl gwefan UNICEF, sydd wedi gosod dileu tlodi fel blaenoriaeth genedlaethol. Onid yw hynny ynddo'i hunan yn frawychus yn yr unfed ganrif ar hugain?!

### Llywodraeth Cymru

Ac ydy, mae tlodi plant, wedi cyrraedd y penawdau bob hyn a hyn yng Nghymru dros y blynyddoedd, gan fynd a dod fel tôn gron. Clywsom mai nod Llywodraeth y Cynulliad (Llywodraeth Cymru bellach) oedd haneru tlodi plant erbyn 2010 a chael gwared arno'n gyfan gwbl erbyn 2020! Ond mae realiti'r sefyllfa'n dra gwahanol. Dal i godi yn hytrach na gostwng mae Tlodi Plant.
Yn ôl adroddiad newydd mae'r gyfran o blant mewn tlodi yng Nghymru wedi codi o 31% i 34% – er gwaethaf cwymp mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Daw'r ffigyrau o ymchwil gan elusen End Child Poverty a Phrifysgol Loughborough, a fu'n craffu ar y flwyddyn 2020/21 – cyn i Covid ymyrryd ar addysg degau ar filoedd o blant.

### Diffinio Tlodi Plant

Ystyrir i blant fyw mewn tlodi os yw incwm yr aelwyd yn fwy na 60% islaw'r cyfartaledd, wedi hepgor costau tai. Mae'r gyfradd ar ei gwaethaf yng Nghasnewydd. Yn anffodus, mae gan Gymru hefyd ei siâr o blant sy'n gallu cael eu cyfrif yn blant mewn tlodi difrifol oherwydd eu bod yn byw mewn cartrefi sy'n rhy dlawd i gynnig pethau fel tripiau ysgol a gwyliau. Galwodd Comisiynydd Plant Cymru yn ddiweddar ar Lywodraeth Cymru i osod targedau newydd i leihau lefelau tlodi plant. Mae'r Comisiynydd yn honni y byddai'n anodd iddi wneud ei swydd oni bai bod ein Llywodraeth yn gosod targedau newydd.

### Arfau gorau

Tra bo Llywodraeth Cymru yn ceisio ymateb i'r sefyllfa mae'n datgan nad yw'r grym ganddo i fynd i'r afael â thlodi plant fel y dymunai. Gan San Steffan mae'r arfau gorau – sef pwerau trethu a budd-daliadau – ar gyfer taclo tlodi plant, ac nid yw'r rhain wedi'u datganoli. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dweud ei fod yn deall y pwysau sydd ar deuluoedd ac yn gwneud ei orau i'w helpu. Beth bynnag yw'r ateb, mae'n gwbl glir mai afraid yw hyd yn oed dechrau ar y gwaith heb gynllun gwrthdlodi plant ble mae cyd-ddealltwriaeth a phawb yn tynnu i'r un cyfeiriad ac yn gosod y dasg yn flaenoriaeth. Fe ddywedodd Archesgob Cymru'n ddiweddar ei bod yn warth fod gennym ni yng ngwledydd Prydain yn y chweched economi fwyaf yn y byd, gymaint o blant yn byw mewn tlodi cymharol a chymaint yn dibynnu ar fanciau bwyd i oroesi.

### Ymateb i dlodi

Mae yna lawer o elusennau'n ceisio ymateb i sefyllfaoedd tlodi yn y Deyrnas Unedig ac yng ngwledydd y trydydd byd. Diolch amdanyn nhw. Onid ein swyddogaeth a'n dyletswydd ni fel Cristnogion yw ymateb i dlodi drwy ddangos trugaredd a thosturi a gweithredu fel y dangosodd Iesu? Cydnabyddwn fod her enfawr yn wynebu llywodraethau wrth geisio dileu tlodi. Mae'n dda deall fod Llywodraeth Cymru bob amser wedi rhoi plant a hawliau plant wrth wraidd popeth a wna. Parchwn yr ymdrechion ond megis cyffwrdd â'r ymylon a lleddfu dros dro sy'n digwydd ar hyn o bryd heb osod dileu tlodi plant yn flaenoriaeth wirioneddol. Prin yn wir, rhaid cydnabod, yw'r cynigion credadwy sy'n debygol o gael dylanwad arwyddocaol a phellgyrhaeddol ar ddileu tlodi plant.

Mae canlyniadau methu â dod i'r afael â thlodi plant yn gwbl glir. Os ydym yn derbyn fod miliynau o blant yn tyfu i fyny mewn tlodi, yna rydym yn derbyn y problemau sy'n codi o ganlyniad hynny – deilliannau gwael, iechyd gwael, rhagolygon gwael, problemau cymdeithasol a'r cyfan yn costio biliynau i geisio'u hunioni.

Gallwn fod yn sicr y bydd tlodi plant yn y penawdau eto cyn hir, fel tôn gron, ond tybed a fydd unrhyw dystiolaeth o symudiadau arwyddocaol i'w ddileu ac nid i'w leddfu'n unig?

**R. Alun Charles**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Menywod Iran

Bythefnos yn ôl buom yn ystyried yn *Y Tyst* y gorthrwm y mae menywod yn Iran yn ei wynebu gan yr awdurdodau yno a chan ddynion. Parhawn i'ch annog i feddwl amdanynt, i weddïo drostynt ac i gysylltu gyda'ch aelodau seneddol gan ofyn iddynt bwyso ar y llywodraeth i sefyll o'u plaid ac i fynegi i'n hawdurdodau yma yn y Deyrnas Gyfunol o'r anesmwythyd sydd yn ein plith. Dyma rai ystadegau perthnasol.

## Ystadegau am Iran

| | |
|---|---|
| **Cyfandir:** | Asia |
| **Prifddinas:** | Tehran |
| **Poblogaeth:** | 85,028,760 |
| **% Dinesig:** | 76.3 % |
| **Poblogaeth dan 15 oed:** | 24.7 % |
| **Iaith swyddogol:** | Perseg (Mae Farsi; Dari a Tajik yn dafodieithoedd); Mae'r mwyafrif o Iraniad yn siarad ffurf o Berseg fel mamiaith neu ail iaith. |
| **Ieithoedd:** | 79 |
| **Llythrennedd:** | 85 % |
| **Lleoliad ar restr HDI:** | 70 / 189 |
| **% Cristnogion:** | 0.5 % |
| **Crefydd fwyaf:** | Islam |
| **% y grefydd fwyaf:** | 98.6 % |
| **Lleoliad ar restr erlid Cristnogion Open doors.** | 8 / 50 |



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# SARDIS PONTYPRIDD



Gyda thristwch y nodwn fod yr achos yn Sardis, eglwys yr Annibynwyr, Pontypridd yn dod i ben.

Adeiladwyd y capel ym 1834 ac fe ehangwyd ym 1852. Bu 14 o weinidogion yn gwasanaethu yng nghapel Sardis dros y blynyddoedd, yn eu plith y Parchg Dyfnallt Owen (1905–10) ar yr adeg pan fu twf mawr yn yr aelodaeth.

Ers y 1960au cafwyd mewnlifiad o Gymry Cymraeg i'r ardal i hyrwyddo addysg Gymraeg ac yn ei sgil fe gynyddodd yr aelodaeth a nifer y plant yn yr ysgol Sul. Cafwyd blynyddoedd lawer o bob math o fwrlwm gyda gweithgareddau a gwasanaethau'r ysgol Sul. Mae'n hatgofion yn frith o gyfnodau melys iawn, o bartïon Nadolig, barbeciws, pantomeimau, cyngherddau, a chymanfaoedd canu ar y cyd â chapeli'r ardal.



Wedi ymddeoliad ein gweinidog olaf, y Parchg Hywel Lewis yn 2010, cymerwyd y cyfrifoldebau a'r gwasanaethau gan yr aelodau ynghyd â chymorth hael nifer o weinidogion yr ardal.

Er ein holl ymdrechion, mae'r amgylchiadau rydym wedi eu hwynebu yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi'n gorfodi i gymryd penderfyniad anorfod i roi'r capel ar werth.

Gobeithiwn y daw eto ddefnydd i'r adeilad.

**Lis Morgan-Jones (Trysorydd)**




# Gweddïau dros heddwch

***Gweddïwn dros:***

Dros y rhai sy'n dianc o'u cynefin: **boed iddynt gael croeso gan eraill ohonom sy'n mwynhau bywyd sefydlog, moethus a heddychlon.**

Dros y rhai sy'n aros yn eu cynefin: **boed iddynt hwy a'u teuluoedd brofi diogelwch yn eu bro.**


Dros y rhai sy'n amddiffyn eu teuluoedd: **boed iddynt lwyddo i fagu eu teuluoedd mewn heddwch a hapusrwydd.**

Dros y rhai sydd wedi torri eu calonnau ac anobeithio: **boed iddynt gael eu cysuro a'u hysbrydoli yn fuan i drechu eu digalondid.**

Dros y rhai sy'n ofni nad oes dyfodol sicr iddynt: **boed i newyddion gwell adfer eu gobaith eu dyfalbarhad a'u cariad at fywyd unwaith yn rhagor.**

Dros y rhai sydd â chyfrifoldeb fel arweinwyr: **boed i'r gwleidyddion sydd mewn grym ymatal rhag gweithredu yn dreisgar a chreulon yn y dyfodol.**

*Addasiad Gwilym Wyn o weddi gan Fynachdy Poor Clare, Galway*



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*